Consortium for Research in Deaf Education

# Adroddiad Cymru 2017

## Adroddiad CRIDE ar arolwg 2016/17 ar ddarpariaeth addysgol i blant byddar yng Nghymru

**Cyflwyniad**

Yn 2017 cynhaliodd Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ei seithfed arolwg blynyddol ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar[1] ym mlwyddyn academaidd 2016/17[2]. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriedir ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi mewn llywodraeth leol a chanolog ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

Derbyniwyd ymatebion oddi wrth 15 o wasanaethau yng Nghymru, yn cynrychioli 22 o ardaloedd awdurdod sydd yn gyfradd ymateb o 100%. Dymuna CRIDE achub ar y cyfle i ddiolch i bob un o'r gwasanaethau am ymateb i'r arolwg, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau amser sylweddol sydd gan nifer fawr o'r gwasanaethau.


**Crynodeb o'r prif ganfyddiadau**

- Mae o leiaf 2,642 o blant byddar yng Nghymru; cynnydd cofnodedig o 11% dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae 81% o blant byddar oedran ysgol yn mynychu ysgolion prif ffrwd. Mae 8% yn mynychu ysgolion prif ffrwd sydd â darpariaeth adnoddau, tra bod 10% yn mynychu ysgolion arbennig nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol.
- Cofnodir fod gan 23% o blant byddar angen addysgol arbennig ychwanegol. Ymddengys mai'r angen ychwanegol mwyaf cyffredin yw anawsterau dysgu difrifol.
- Mae tua 6% o blant byddar ag o leiaf un mewnblaniad yn y cochlea, a 3% â chymorth clyw drwy asgwrn.
- Mae 3% o blant byddar yn defnyddio iaith lafar ychwanegol heblaw Saesneg neu Gymraeg yn y cartref.
- Dengys ffigurau ar yr ieithoedd a ddefnyddir gan blant sydd â byddardod difrifol neu lwyr yn yr ysgol neu mewn unrhyw leoliadau addysg eraill fod 68% yn cyfathrebu yn bennaf trwy ddefnyddio Saesneg llafar yn unig, 7% yn defnyddio Cymraeg llafar yn unig yn bennaf tra bod 34% yn bennaf yn defnyddio rhyw ffurf ar iaith arwyddion, naill ai ar ben ei hun (7%) neu ochr yn ochr â Saesneg (24%) neu Gymraeg (3%) llafar.
- Y cyrchfan ôl ysgol mwyaf cyffredin ar gyfer pobl ifanc byddar yw addysg bellach, gyda 65% yn cymryd yr opsiwn hwn.


---

1 At ddibenion yr arolwg hwn, diffiniwyd 'plant byddar' fel pob plentyn a pherson ifanc hyd at 19 mlwydd oed â byddardod synwyrnerfol a dargludol parhaol yn ôl disgrifyddion Cymdeithas Awdioleg Prydain a Chymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD). Defnyddiwn y gair 'byddar' i gynnwys pob lefel o fyddardod, o fân i lwyr.

2 Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) yn neu ar wefan Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn .

- Mae o leiaf 66.93 swydd Athro Plant Byddar, a 6% o'r rhain yn wag. O'r 63.03 aelod o staff yn gweithio fel Athrawon Plant Byddar, roedd 95% ohonynt yn meddu ar y cymhwyster gorfodol.
- Bu gostyngiad o 12% yn nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig mewn cyflogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi gostwng 20% ers i arolwg CRIDE ddechrau yn 2011. Gellir esbonio hyn yn rhannol, ond nid yn llwyr, gan gynnydd yn nifer y swyddi gwag.
- Mae 19% o Athrawon Plant Byddar yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 neu uwch mewn iaith Arwyddion Prydain.
- Mae yna o leiaf 87.7 staff cymorth arbenigol arall yn gweithio gyda phlant byddar yng Nghymru, gostyngiad o 3% ers y llynedd.
- Mae 14% o gynorthwywyr addysgu yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 neu uwch mewn iaith Arwyddion Prydain. Mae 43% o weithwyr cefnogi cyfathrebu, sy'n gyfrifol am helpu plant byddar sy'n cyfathrebu trwy iaith arwyddion gael mynediad i'r cwricwlwm, yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 neu uwch.
- Lleolir 87% o wasanaethau o fewn yr awdurdod lleol.
- Mae 25 darpariaeth adnoddau ledled Cymru.

**Dehongli'r canlyniadau**

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu ffigurau am y sefyllfa ar Ionawr 31 2017.

Mae'r arolwg yn cydnabod nad yw'r blychau a'r opsiynau a ddarparwyd bob tro yn ddigonol i ddisgrifio'r gwasanaethau a'r plant. Roedd gan wasanaethau'r cyfle i nodi sylwadau neu i egluro lle bo angen trwy'r arolwg. Nodir gan yr adroddiad hwn materion penodol a ddaeth i'r amlwg mewn rhai ardaloedd.

Mae'n amlwg bod llawer o wasanaethau dal i gofnodi anawsterau wrth dynnu data am blant byddar yn eu hardal ac mae anghysondebau o hyd yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hateb trwy'r arolwg. Weithiau mae'r gyfradd ymateb i gwestiynau unigol yn amrywio. **Felly dylid parhau i ddefnyddio'r canlyniadau â gofal.** Amlygwyd unrhyw wahaniaethau o bwys rhwng canfyddiadau'r arolwg hwn a chanfyddiadau arolygon blaenorol yn yr adroddiad. Yn 2016, ar ôl pum mlynedd o gynnal yr arolwg a chyflawni adolygiad sylweddol, gwnaeth CRIDE nifer o newidiadau arwyddocaol i'r cwestiynau. Mae'n rhaid bod yn ofalus hefyd oherwydd gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb i gwestiynau unigol a chamgymeriadau posibl yn narpariaeth y data rhwng yr arolygon.

Noder bod pob canran wedi'i thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Noder hefyd lle mae nifer y plant byddar mewn unrhyw gategori yn llai na 5, ymddengys ‘<5’.

**Cynnwys**

RHAN 1: Plant Byddar yng Nghymru ........ 3
RHAN 2: Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol arall ........ 12
RHAN 3: Cefnogaeth a ddarperir ........ 19
RHAN 4: Cefndir a methodoleg ........ 22
Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol ........ 23

# RHAN 1: Plant byddar yng Nghymru

## Faint o blant byddar sydd?

Yn 2017, gofynnwyd i wasanaethau roi manylion am blant byddar sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu[3].

Wrth roi ffigurau nifer y plant sy'n perthyn, gofynnwyd i wasanaethau yn gyntaf i roi ffigur cyffredinol ac wedyn i ddarparu dadansoddiad yn ôl lefel byddardod, oedran a lleoliad addysgol. Canfuom na ddarparodd rhai o'r gwasanaethau'r data hwn yn gyson; darparodd rhai gwasanaethau ddosraniad o'r ffigurau a oedd yn cynhyrchu cyfanswm gwahanol i'r cyfanswm a roddwyd mewn rhannau eraill o'r arolwg. Ni ddarparodd rhai gyfanswm cyffredinol ond ffigurau wedi'u dadansoddi.

O ganlyniad, nid mater syml yw rhoi ateb pendant i'r cwestiwn faint o blant byddar sydd, a dylid defnyddio'r ffigurau hyn â gofal. Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r ffigur uchaf a roddwyd o naill ai'r cyfanswm cyffredinol neu'r cyfanswm a gynhyrchwyd gan swm y ffigurau wedi'u dosrannu. Gwnawn hyn er mwyn sicrhau ein bod ni wedi cynnwys cymaint o blant byddar ag sy'n bosib. Yn yr achosion hyn, cyfeiriwn ato fel y "cyfanswm wedi'i addasu" trwy gydol yr adroddiad hwn.

Yn seiliedig ar ymatebion gan 15 gwasanaeth yn cynrychioli 22 awdurdod lleol, **y cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar yng Nghymru yw 2,642**. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu o 2,374 yn 2015/16 sydd yn gynnydd o 11%. Mae'n anodd fod yn sicr i ba raddau y mae'r cynnydd hwn oherwydd newidiadau mewn demograffeg neu fanylder o ran cofnodi.

*Tabl 1: Ffigurau a gynhyrchwyd wrth gyfrifo nifer y plant byddar*

| | **Cyfanswm a gynhyrchir** |
|---|---|
| Cyfanswm wedi'i addasu | 2,642 |
| Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant yn gyffredinol | 2,637 |
| Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, wedi'i ddosrannu yn ôl grŵp oedran | 2,634 |
| Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, wedi'i ddosrannu yn ôl lefel eu byddardod (yn cynnwys 'nid yw lefel eu byddardod yn hysbys') | 2,494 |
| Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, wedi'i ddosrannu yn ôl lleoliad addysgol | 2,642 |

Adroddodd y gwasanaeth lleiaf fod 60 o blant byddar yn perthyn o fewn ei ffiniau. Adroddodd y gwasanaeth mwyaf 440 o blant byddar. Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n perthyn mewn pob gwasanaeth oedd 176.

3 Y diffiniad a rhoddir ar gyfer y cwestiwn hwn oedd: “Sawl plentyn byddar sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae'ch gwasanaeth yn gweithredu? Dylai'r ateb gynnwys: Pob plentyn sydd â byddardod synwyrnerfol neu ddargludol parhaol unochrol neu ddwyochrol, ar bob lefel o fân i lwyr, yn ôl disgrifyddion Cymdeithas Awdioleg Prydain (BSA) / Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD). **Ni ddylid cynnwys** plant sydd â byddardod dros dro yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn. Defnyddiwn y term byddardod dargludol parhaol i gynnwys y plant hynny sydd â syndrom sydd yn cynnwys byddardod dargludol parhaol, microtia/atresia, camffurfiad y glust ganol, neu'r rheini sydd wedi cael llawdriniaeth ar y glust ganol fel mastoidectomi. Mae hefyd yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog na ddisgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed, fel y rheini a anwyd gyda thaflod hollt, Syndrom Down, ffibrosis systig, neu dyscinesia blewynnol cychwynnol. O dan fyddardod dargludol dros dro, cynhwyswn y plant hynny sydd â chlust ludiog sydd efallai wedi derbyn cymhorthion clyw yn lle llawdriniaeth i osod gromed ond disgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed. Pob plentyn byddar, ni waeth p'un ai ydynt yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i gasglu'r wybodaeth hon (Yng nghwestiynau 44 a 45, gofynnwn am nifer y plant ar eich llwyth achos). Plant sy'n mynychu darpariaeth addysgol y tu allan i'ch ardal ond sydd fel arfer yn byw o fewn eich ardal.”

Cymhara'r tabl dilynol gyfanswm nifer y plant byddar sy'n byw yng Nghymru â ffigurau o flynyddoedd blaenorol. Fel yr amlinellir yn y cyflwyniad, dylid defnyddio gofal wrth wneud cymariaethau ag adroddiadau cynharach oherwydd gwahaniaethau yn ansawdd yr ymatebion a'r cyfraddau ymateb rhwng yr adroddiadau. Er enghraifft, daeth yn amlwg yn 2016 fod un gwasanaeth, hyd at y flwyddyn hynny, wedi bod yn cynnwys plant â byddardod dros dro yn eu ffigurau ar gyfer plant â byddardod parhaol, oherwydd cyfyngiadau yn y ffordd y casglwyd data yn lleol.

*Tabl 2: Nifer y plant byddar a gofnodwyd, dros sawl blwyddyn yn olynol*

| | **Nifer y plant a gofnodwyd (cyfansymiau wedi'u haddasu)** |
|---|---|
| CRIDE 2017 | 2,642 |
| CRIDE 2016 | 2,374 |
| CRIDE 2015 | 3,288 |
| CRIDE 2014 | 2,880 |
| CRIDE 2013 | 2,904 |
| CRIDE 2012 | 2,743 |
| CRIDE 2011 | 2,755 |

**Beth mae'r arolwg yn ei ddweud wrthym am boblogaeth plant byddar yng Nghymru**

Mae'r tablau isod yn darparu dadansoddiadau yn ôl oedran, lefel byddardod, lleoliad addysg ac ardal.

*Tabl 3: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl oedran*

| **Grŵp oedran** | **Nifer y plant a gofnodwyd** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Blynyddoedd cynnar/cyn-ysgol | 265 | 10% |
| Oedran ysgol gynradd | 1,253 | 48% |
| Oedran ysgol uwchradd | 964 | 37% |
| Ôl-16 hyd at 19 oed | 152 | 6% |
| Cyfanswm | 2,634 | |

Os edrychwn ar nifer y bobl ifanc byddar 'ôl-16' a gofnodwyd, adrodda sawl gwasanaeth nifer bach yn y garfan hon yn unig. Mae CRIDE yn parhau i gredu bod hyn yn adlewyrchu'r anawsterau sydd gan rai gwasanaethau wrth adnabod y bobl ifanc byddar hyn yn hytrach nag absenoldeb pobl ifanc byddar mewn addysg ôl-16 yn yr ardaloedd hyn.

Er mwyn cymharu, edrychwyd ar ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar amcangyfrifon poblogaeth yn ôl oedran[4] i weld os oedd yna unrhyw wahaniaethau yn y gyfran o blant mewn gwahanol grwpiau oedran. Dylid nodi ni ofynnodd CRIDE am oedran penodol plant ond yn hytrach os oeddynt o “oedran ysgol gynradd”, ayb. felly dylid cymryd y data isod i fod yn fras amcan yn unig. Hefyd, gwyddys bod achosion o fyddardod yn amrywio yn ôl oedran, yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer o blant byddar yn dod yn fyddar. O ganlyniad, nid yw'n bosib cymharu'r ffigurau isod yn uniongyrchol. Ond ymddengys bod y ffigurau yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn tangofnodi nifer y bobl ifanc byddar ôl-16 yn eu hymatebion i CRIDE.

*Tabl 4: Cyfran y plant a phobl ifanc yn ôl oedran*

4

| Swyddfa Ystadegau Gwladol (data o ganol 2016) | | | CRIDE | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Canran o'r holl blant** | | **Categori** | **Canran o'r cyfanswm** |
| Plant o 0 i 3 oed | 19% | | Cyn-ysgol | 10% |
| Plant o 4 i 11 oed | 41% | | Ysgol gynradd (dosbarth derbyn i flwyddyn 6) | 48% |
| Plant o 12 i 16 oed | 24% | | Ysgol uwchradd (blwyddyn 7 i 11) | 37% |
| Pobl ifanc o 17 i 19 oed | 16% | | Ôl-16 | 6% |

*Tabl 5: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl lefel eu byddardod*

| Lefel byddardod | Nifer y plant a gofnodwyd | Canran o'r cyfanswm (lle bo'n hysbys) |
|---|---|---|
| Unochrog | 488 | 20% |
| Mân | 568 | 23% |
| Cymedrol | 852 | 34% |
| Difrifol | 294 | 12% |
| Llwyr | 228 | 9% |
| Cyfanswm (heb gynnwys 'nid yw'n hysbys') | 2,430 | |
| Nid yw'n hysbys | 64 | |
| Cyfanswm (yn cynnwys 'nid yw'n hysbys) | 2,494 | |

*Tabl 6: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl lleoliad addysgol*

| Math o ddarpariaeth addysgol | | Nifer y plant byddar | Canran o'r cyfanswm (lle bo'n hysbys) |
|---|---|---|---|
| **O fewn yr awdurdod lleol** | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol | 142 | 5% |
| | Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 98 | 4% |
| | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 8 | 0% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth | 1,863 | 71% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) (er enghraifft Eton) | 35 | 1% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd | 163 | 6% |
| | Ysgolion arbennig eraill, nad ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir) | 232 | 9% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (**ac eithrio** colegau chweched dosbarth mewn ysgol) | 15 | 1% |
| **Tu allan i'r awdurdod lleol** | Lleoliad blynyddoedd cynnar – plant cyn-ysgol | <5 | 0% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth (yn cynnwys academïau ac ysgolion rhydd) | 29 | 1% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) | <5 | 0% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd | 26 | 1% |
| | Ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion byddar (naill ai ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas gynhelir) | 11 | 0% |
| | Ysgolion arbennig eraill, nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas gynhelir) | 7 | 0% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (**heb** gynnwys colegau chweched dosbarth ysgolion) | <5 | 0% |
| **Arall** | NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig) | 0 | 0% |
| | Arall (e.e. Unedau cyfeirio disgyblion) | 0 | 0% |
| **Cyfanswm (heb gynnwys 'nid yw'n hysbys')** | | 2,630 | |
| **Nid yw'n hysbys** | | 12 | |
| **Cyfanswm (yn cynnwys 'nid yw'n hysbys')** | | 2,642 | |

*Tabl 7: Dadansoddiad o fathau o ddarpariaeth addysgol, yn ôl a ydynt o fewn neu du allan i'r awdurdod lleol cartref (lle bo'n hysbys)*

| Math o ddarpariaeth addysgol | Nifer y plant byddar | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| O fewn yr awdurdod lleol cartref | 2,551 | 97% |
| Tu allan i'r awdurdod lleol cartref | 79 | 3% |
| Cyfanswm (heb gynnwys 'nid yw'n hysbys' ac 'arall') | 2,630 | |

*Tabl 8: Dadansoddiad o fathau o ddarpariaeth addysgol*

| **Math o ddarpariaeth addysgol (ni waeth o fewn neu du allan i'r awdurdod lleol)** | **Nifer y plant byddar** | **Canran o'r cyfanswm** | **Canran o'r cyfanswm o blant oedran ysgol (h.y. heb gynnwys plant cyn-ysgol a phobl ifanc ôl-16)** |
|---|---|---|---|
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol | 142 | 5% | |
| Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 93 | 4% | |
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 8 | 0% | 0% |
| Ysgolion prif ffrwd (yn cynnwys ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth ac ysgolion annibynnol) | 1,931 | 73% | 81% |
| Darpariaeth prif ffrwd: darpariaeth adnoddau | 189 | 7% | 7% |
| Ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion byddar | 11 | 0% | 0% |
| Ysgolion arbennig eraill, nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol | 239 | 9% | 10% |
| Darpariaeth ôl 16 arall i gyd (heb gynnwys chweched dosbarth ysgolion) | 16 | 1% | |
| Arall (e.e. Unedau cyfeirio disgyblion, NEET) | 0 | 0% | |
| Cyfanswm | 2,629 | | |
| Cyfanswm (heb gynnwys plant cyn-ysgol a darpariaeth arall ôl-16 ac 'arall') | 2,378 | | |

**Amlder Anhwylder ar Sbectrwm Niwropatheg y Clyw (ANSD)**

Rhoddodd bob un o'r 15 gwasanaeth ffigur wrth ateb cwestiwn am nifer y plant oedd ag ANSD yn eu hardal. Yn seiliedig ar yr ymatebion hyn, mae yna 37 o blant byddar yng Nghymru ag ANSD 1% o'r holl blant byddar (cyfanswm wedi'i addasu).

Oherwydd protocolau sgrinio clyw babanod, yr unig ffordd ddibynadwy o ganfod bod babanod yn dioddef o ANSD yw dilyn gweithredoedd profi ar y rheiny sydd wedi bod mewn Unedau Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (NICU), ac nis canfyddir gan y sgrinio a ddefnyddir ym mhoblogaeth 'babanod iach'. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno sgrinio clyw babanod i bob babi yn 2003. Awgryma ffigurau a ddarperir trwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod fod tua 1 o bob 10 plentyn sydd â byddardod cynhenid yn dioddef o ANSD. Felly mae hyn yn awgrymu bod rhai o'r gwasanaethau yn tangofnodi. Mae'n debygol bod hyn oherwydd diffyg-adnabod ANSD mewn plant byddar hŷn – y rhai na chawsant eu sgrinio yn fabanod gan eu bod wedi cael eu geni cyn i sgrinio cael ei gyflwyno i bob babi yn 2003, y 'babanod iach' hynny a basiodd y sgrinio ac a gafodd eu canfod yn ddiweddarach, a'r rhai sydd â byddardod caffaeledig / cynyddol nad ydynt wedi cael eu profi am ANSD.

**Amlder anghenion addysgol arbennig ychwanegol (AAA)**

Yr oedd 14 gwasanaeth yn gallu dweud wrthym sawl plentyn oedd ag AAA ychwanegol; cofnodwyd y nifer o blant byddar sydd ag AAA ychwanegol yn 608. Mae hyn yn 23% o'r cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar, sydd yn gynnydd o 21% yn 2015, y tro diwethaf gofynnodd CRIDE am niferoedd y plant byddar sydd ag AAA ychwanegol.

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu dadansoddiad yn ôl y math o AAA. Gofynnwyd i wasanaethau dadansoddi'r ffigur hwn yn ôl y math o AAA, yn defnyddio'r dosbarthiad a amlinellir yn y canllaw cyfrifiad ysgol. Nid oedd yn bosib i bob gwasanaethau ddarparu dadansoddiad.

*Tabl 9: Nifer y plant byddar sydd ag AAA ychwanegol, yn ôl y math o AAA*

| | **Nifer y plant byddar sydd ag AAA ychwanegol** | **Canran o blant byddar sydd ag AAA ychwanegol (lle bo'r math o AAA yn hysbys)** | **Canran o'r holl blant byddar (cyfanswm wedi'i addasu)** |
|---|---|---|---|
| Anawsterau Dysgu Cymedrol | 71 | 13% | 3% |
| Anawsterau Dysgu Cyffredinol | 78 | 14% | 3% |
| Anawsterau Dysgu Difrifol | 131 | 23% | 5% |
| Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog | 48 | 8% | 2% |
| Dyslecsia | 15 | 3% | 1% |
| Dyscalcwlia | <5 | 0% | 0% |
| Dyspracsia | <5 | 0% | 0% |
| Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd | 10 | 2% | 0% |
| Anhwylder Sbectrwm Awtistig | 30 | 5% | 1% |
| Anawsterau corfforol a meddygol | 60 | 11% | 2% |
| Nam ar y Golwg | 24 | 4% | 1% |
| Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu | 57 | 10% | 2% |
| Anawsterau ymddygiad, emosiynol a chymdeithasol | 39 | 7% | 1% |
| Cyfanswm | 565 | | |
| | | | |
| Nid yw'n hysbys | 7 | | |
| Cyfanswm yn cynnwys y rheini a gofnodwyd “nid yw'n hysbys” | 572 | | |

Awgryma'r ffigurau mai anawsterau dysgu difrifol yw'r AAA ychwanegol mwyaf cyffredin ac wedyn an awsterau dysgu cyffredinol ac anawsterau dysgu cymedrol.

Ar wahân i hyn, awgrymodd ymchwil[5] o 1996 bod 40% o blant byddar â “phroblem glinigol neu ddatblygiadol” arall. Ond mae'r ymchwil hwn yn defnyddio diffiniad eang o “broblemau” ychwanegol (yn cynnwys, er enghraifft, ecsema a pharlys yr ymennydd) tra deellir fel arfer fod AAA yn cyfeirio at achosion pan fod gan blant anabledd neu anhawster dysgu, sy'n golygu bod angen darpariaeth addysgol arbennig arnynt. Mae diffiniad anabledd neu anhawster dysgu yn cynnwys pan fydd gan blant anabledd sy'n eu rhwystro neu'n eu hatal rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r math a darperir yn gyffredinol ar gyfer plant o'r un oedran mewn ysgolion o fewn ardal yr awdurdod lleol. Felly unwaith eto, nid yw'n bosib cymharu'r ffigurau yn union â ffigurau CRIDE.

**Plant byddar â mewnblaniadau yn y cochlear a chymhorthion clyw drwy asgwrn**

Adroddodd gwasanaethau fod 155 o blant (6% o'r cyfanswm o blant byddar, wedi'i addasu) ag o leiaf un mewnblaniad yn y cochlear, sydd wedi cynyddu ychydig o'r cyfanswm o 4% pan ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2015. Adroddodd gwasanaethau hefyd fod 68 plentyn (3% o'r cyfanswm o blant byddar, wedi'i addasu) â chymorth clyw drwy asgwrn. Mae hyn wedi cynyddu ychydig ers i'r cwestiwn cael ei ofyn yn 2015, pan gofnodwyd bod gan 1% o blant byddar â chymorth clyw drwy asgwrn.

---

5 Fortnum H. Davies (1997) Epidemiology of permanent childhood hearing impairment in Trent Region, 1985-1993. *British Journal of Audiology, 1997,31,409-446*

**Ieithoedd ychwanegol**

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu nifer y plant byddar a oedd yn byw yn yr ardal sy'n defnyddio Saesneg neu Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol yn y cartref, hyd y gwyddys. Darparodd 15 gwasanaeth ymateb i'r cwestiwn hwn, yn cofnodi bod 83 o blant yn defnyddio Saesneg neu Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol yn y cartref, hyd y gwyddys (3% o'r cyfanswm o blant byddar a gofnodwyd, wedi'i addasu).

Wedyn gofynnwyd i wasanaethau ddarparu dadansoddiad o gyfanswm nifer y plant ac sydd â **nam ar y clyw dwyochrol difrifol neu lwyr**, sy'n byw yn yr ardal, yn ôl pa ieithoedd a ddefnyddir yn bennaf yn yr ysgol/lleoliad addysgol arall. Darparodd 14 gwasanaeth rywfaint o wybodaeth am y cwestiwn hwn. Yn y gorffennol, holwyd am blant sydd ag unrhyw lefel o fyddardod. Gan ein bod ni'n awyddus i gael ymdeimlad gwell o ddefnydd iaith arwyddion ymhlith plant sydd wedi colli eu clyw yn llwyr, cyfyngwyd y cwestiwn yn arolwg 2017.

*Tabl 10: Nifer y plant â byddardod difrifol/llwyr, yn ôl yr ieithoedd a ddefnyddir yn bennaf yn yr ysgol / lleoliad addysgol arall*

| **Iaith** | **Cyfanswm** | **Canran o ymatebion (lle bo'n hysbys)** |
|---|---|---|
| Saesneg llafar | 222 | 58% |
| Cymraeg llafar | 25 | 7% |
| Iaith Arwyddion Prydain | 25 | 7% |
| Saesneg llafar ynghyd â chefnogaeth arwyddion | 94 | 24% |
| Cymraeg llafar ynghyd â chefnogaeth arwyddion | 10 | 3% |
| Cyfuniad arall | 8 | 2% |
| Cyfanswm hysbys | 384 | |
| | | |
| Nid yw'n hysbys | 2 | |
| Cyfanswm yn cynnwys nid yw'n hysbys | 386 | |

Dengys y canlyniadau fod 34% o blant sydd â cholled clyw difrifol neu lwyr yn bennaf yn defnyddio iaith arwyddion mewn addysg, o'r rheini mae 7% yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain yn bennaf. Yn 2015, canfuom fod 8% o blant ag **unrhyw** lefel o fyddardod yn bennaf yn defnyddio iaith arwyddion mewn addysg.

Rhaid bod yn ofalus yn benodol wrth edrych ar ymatebion y cwestiwn hwn. Mae hyn oherwydd adnabyddodd y 14 gwasanaeth ag ymatebodd i'r cwestiwn hwn, 386 o blant â cholled clyw difrifol neu lwyr. Mae hyn yn llai na'r ffigur o 522 o blant sydd â cholled clyw difrifol neu lwyr a gydnabuwyd ar wahân yn yr adroddiad hwn (gweler tabl 5). Awgryma hyn fod y data yma ddim yn cynnwys rhai o'r plant sydd â cholled clyw difrifol neu lwyr a adnabuwyd yn nhabl 6.

**Pobl ifanc byddar ôl-16**

Gofynnwyd i wasanaethau faint o bobl ifanc byddar gadawodd ysgol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2015/16. Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn is. Ymatebodd 13 gwasanaeth y cwestiwn hwn, yn cofnodi bod 133 o bobl ifanc byddar wedi gadael ysgol. Mae'r ffigur yn is nag efallai byddem wedi'i ddisgwyl i fod yn gadael ysgol. Er enghraifft, gwelsom yn gynharach fod 964 plentyn oedran ysgol uwchradd, sy'n awgrymu bod tua 192 ym mhob blwyddyn. Mae'n ymddangos fod yna sawl plentyn ifanc nad ydy gwasanaethau yn ymwybodol a ydynt wedi gadael ysgol neu beidio, ac mae hyn yn destun pryder.

Gofynnwyd hefyd am nifer y bobl ifanc byddar hynny a oedd yn meddu ar gynllun pontio a gafodd ei lywio gan Athro Plant Byddar, ac ymatebodd 13 gwasanaeth bod 24 person ifanc yn meddu ar gynllun pontio a gafodd ei lywio gan Athro Plant Byddar (18% o'r bobl ifanc byddar a oedd wedi gadael ysgol). Gofynnwyd i wasanaethau wedyn i ddarparu dadansoddiad o gyrchfannau'r bobl ifanc a oedd wedi gadael ysgol.

*Tabl 11: Cyrchfannau ôl ysgol*

| **Cyrchfan ôl ysgol** | **Nifer y bobl ifanc** | **Canran (lle bo'n hysbys)** |
|---|---|---|
| Addysg bellach (coleg) | 34 | 65% |
| Addysg uwch (prifysgol neu gwrs addysg uwch yn y coleg) | 5 | 10% |
| Hyfforddi/prentisiaeth | 6 | 12% |
| Cyflogaeth | <5 | 3% |
| Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant | <5 | 2% |
| Arall | <5 | 10% |
| **Cyfanswm** | 52 | |
| | | |
| Nid yw'n hysbys | 6 | |
| Ni chedwir y data | <5 | |
| Cyfanswm (yn cynnwys lle nid yw'n hysbys neu le na chedwir y data) | 61 | |

Gofynnwyd i wasanaethau os oeddent yn cefnogi pobl ifanc byddar mewn addysg bellach neu gyrchfannau ôl ysgol eraill. Roedd gwasanaethau yn gallu dewis pob opsiwn a ddisgrifiodd eu cefnogaeth. Nododd 54% o wasanaethau bod ganddynt ddim cysylltiad, sydd yn welliant bach ers arolwg 2015 pan noddodd 60% o wasanaethau ddim cysylltiad.

*Tabl 12: Cefnogaeth i bobl ifanc byddar mewn cyrchfannau ôl ysgol*

| **Cefnogaeth** | **Nifer yr atebion** | **Canran o bob ymateb** |
|---|---|---|
| Dim cysylltiad | 7 | 54% |
| Ie – am ddim yn y man darparu, wedi'i gyllido gan yr awdurdod lleol | 1 | 8% |
| Ie – pan fydd darparwyr ôl-16 yn ei chomisiynu | 0 | 0% |
| Ie – pan fydd awdurdod lleol arall sy'n gosod pobl ifanc mewn sefydliad yn eich ardal yn ei chomisiynu yn uniongyrchol | 0 | 0% |
| Arall | 5 | 38% |
| Cyfanswm | 13 | |

Lle nododd gwasanaethau 'Arall', gofynnwyd iddynt ddarparu manylion. Roedd atebion yn cynnwys:

- Darparu gwybodaeth i leoliadau Addysg Bellach ar gyfer adolygiadau blynyddol
- Darperir cefnogaeth yn ystod cyfnod pontio i leoliadau newydd yn unig.

**Nifer y plant byddar ar lwythi achos gwasanaethau**

Yn gynharach, edrychodd yr adroddiad hwn ar nifer y plant byddar y gwyddys eu bod nhw yn byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Gofynnodd CRIDE hefyd am blant byddar ar lwythi achos gwasanaethau.

Wrth ofyn am blant ar lwyth achos, golyga CRIDE plant sy'n derbyn rhyw fath o gefnogaeth mwy nag unwaith y flwyddyn. Newidiodd diffiniad y cwestiwn hwn o'r cwestiwn a gofynnwyd yn 2016, pan ofynnwyd am blant oedd yn derbyn cefnogaeth o leiaf unwaith y flwyddyn, felly efallai gallem ddisgwyl newid i'r data yn seiliedig ar y newid hwn i'r geiriad. Mae enghreifftiau o gefnogaeth yn cynnwys addysgu uniongyrchol, ymweliadau i'r teulu neu'r ysgol, cyswllt â'r teulu, ysgol, athrawon, gwirio teclynnau clyw, ayb. Roedd gwasanaethau hefyd yn gallu cynnwys plant oedd yn derbyn cymorth gan y gwasanaethau ond nad oeddent yn byw o fewn ardal ddaearyddol y gwasanaeth hynny. Cynhwysir plant â byddardod dros dro yn y cwestiwn hwn hefyd.

Yn seiliedig ar ymatebion gan bob un o'r 15 gwasanaeth, awgryma ymatebion yr arolwg fod o leiaf 3,968 o blant byddar â byddardod parhaol neu dros dro ar lwythi achos gwasanaethau. Y nifer lleiaf o blant ar lwyth achos oedd 58 a'r uchaf oedd 1,185.  Y cyfartaledd oedd 265 o blant. Ymddengys bod hyn yn gynnydd o 3,722 o blant ar lwythi achos yn 2016. Mae'r newid yng ngeiriad y cwestiwn yn gwneud cymhariaeth uniongyrchol â data 2016 yn anodd.

Gofynnodd CRIDE i wasanaethau am nifer y plant ar eu llwythi achos oedd â byddardod dargludol dros dro. Ymatebodd 14 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn a chofnodwyd bod 1,642 o blant â byddardod dargludol dros dro a gefnogir gan wasanaethau yr oeddynt yn gallu dweud wrthym amdanynt. Mae hyn yn gymharol uchel, o gymharu â Lloegr lle cofnododd gwasanaethau 3,092 o blant â byddardod dargludol dros dro ar lwythi achos.

**Sut mae ffigurau CRIDE 2017 yn cymharu â ffigurau o ffynonellau eraill?**

*Cyfrifiad Ysgol*

Adrodda arolwg CRIDE 2017 fod 2,642 o blant byddar yng Nghymru. Ond awgryma ffigurau Cyfrifiad Ysgol Llywodraeth Cymru fod 3,272 o ddisgyblion sydd â nam ar y clyw (a bod gan 156 o'r rheini nam amlsynwyr). Dylid nodi nid yw data Llywodraeth Cymru bellach yn dangos a ydy'r nam ar y clyw yn brif angen neu eilaidd. Awgryma'r ffigurau hyn bod gwasanaethau yn tangofnodi nifer y plant byddar sydd yn eu hardal yn eu hymatebion i CRIDE.

## RHAN 2: Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol arall

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio mewn gwahanol leoliadau, yn cynnwys y rheini mewn swydd beripatetig ac/neu'n gweithio mewn darpariaethau adnoddau. Mynega'r ffigurau fel swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl); er enghraifft, gall swydd Athro Plant Byddar CALl 0.5 awgrymu bod person yn gweithio fel Athro Plant Byddar am hanner 'wythnos waith' safonol. Am y tro cyntaf gofynnodd CRIDE yn benodol ac ar wahân am Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Ond, gan nad oedd gwasanaethau yng Nghymru yn adnabod unrhyw Athro Plant Byddar yn y categori hwn, mi fydd dal yn bosib cymharu'r ffigurau yn uniongyrchol gyda ffigurau o flynyddoedd blaenorol.

Cyfanswm yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru yw o leiaf 57.63.

Mae yna o leiaf 63.03[6] athro sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar yng Nghymru. Llenwir 95% o'r swyddi gan Athro Plant Byddar cymwysedig gyda'r swyddi sy'n weddill wedi'u llenwi gan athrawon sydd o dan hyfforddiant (4%) neu athrawon cymwysedig sydd heb y cymhwyster gorfodol ac sydd heb gynlluniau i ddechrau hyfforddi ar ei gyfer yn y dyfodol agos (1%).

Pan gyflawnir yr arolwg, bu 3.9 swydd wag. Mae yna gynnydd yn nifer y swyddi gwag o 1.0 yn 2016. O ychwanegu'r swyddi gwag at gyfanswm yr Athrawon Plant Byddar sydd mewn cyflogaeth, dengys fod o leiaf 66.93 swydd Athrawon Plant Byddar, gyda 6% ohonynt yn wag.

Dylid nodi hefyd nid ydy'r ffigurau hyn yn cynnwys Athrawon Plant Byddar mewn unrhyw leoliadau eraill.

Mae'r tabl canlynol yn darparu dadansoddiad yn ôl y math o leoliad.

6 Dylid nodi pan ofynnwyd i wasanaethau ddarparu dadansoddiad o nifer yr Athrawon Plant Byddar a gyflogwyd yn ôl eu lleoliad gwaith, cynhyrchwyd cyfanswm o 63.03. Ond, pan ofynnwyd i wasanaethau am fwy o fanylion am nifer yr Athrawon Plant Byddar a gyflogir yn ôl lefel eu cymhwyster, cofnodwyd ffigur ychydig is o 60.73. sy'n wahaniaeth o 2.3 Athro Plant Byddar. Defnyddir y ffigur uwch yn yr adroddiad hwn.

*Tabl 13: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn gyffredinol*

| | **Yn gweithio'n bennaf fel Athro Plant Byddar peripatetig (Cyfanswm a chanran)** | **Yn gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau (Cyfanswm a chanran)** | **Yn gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (Cyfanswm a chanran)** | **Yn gweithio'n hyblyg fel Athro Plant Byddar peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau ac/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (Cyfanswm a chanran)** | **Swyddi Athro Plant Byddar yn gyffredinol (Cyfanswm a chanran)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol | 30.6 (96%) | 26.03 (93%) | 0 (0%) | 1 (100%) | 57.63 (95%) |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 1.2 (4%) | 1.5 (5%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 2.7 (4%) |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0 (0%) | 0.4 (1%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0.4 (1%) |
| Cyfanswm | 31.8 (100%) | 27.93 (100%) | 0 | 1 (100%) | 60.73 |

Mae'r tabl canlynol yn edrych ar y newidiadau yn nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig mewn cyflogaeth a swyddi dros flynyddoedd olynol.

*Tabl 14: Newidiadau yn nifer yr athrawon Plant Byddar o flwyddyn i flwyddyn*

| | **2010/11** | **2011/12** | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth | 71.95 | 91.75 | 66.5 | 67.0 | 69.86 | 65.45 | 57.63 |
| Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth | 75.95 | 100.55 | 71.5 | 70.2 | 74.26 | 69.25 | 63.03 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 | 0 | 3 | 0.6 | 0.8 | 1 | 3.9 |
| Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (yn cynnwys swyddi gwag) | 75.95 | 100.55 | 74.5 | 70.8 | 75.06 | 70.25 | 66.93 |

*Tabl 15: Newid canrannol yn nifer yr Athrawon Plant Byddar*

| | **Newid canrannol dros y 6 blynedd diwethaf (rhwng 2010/11 a 2016/17)** | **Newid canrannol dros y flwyddyn ddiwethaf (rhwng 2015/16 a 2016/17)** |
|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth | -20% | -12% |
| Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth | -17% | -9% |
| Nifer y swyddi gwag | - | 209% |
| Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (yn cynnwys swyddi gwag) | -12% | -5% |

Mae'r gostyngiad sylweddol yn nifer yr Athrawon Plant Byddar yn y tymor byr ac yn y tymor hir yn peri pryder. Gellir esbonio'r gostyngiad hwn yn rhannol, ond nid yn llwyr, gan gynnydd yn nifer y swyddi gwag pan gyflawnir yr arolwg.

Edrychodd CRIDE ar sawl gwasanaeth oedd wedi gweld newid i nifer yr Athrawon Plant Byddar o fewn y flwyddyn ddiwethaf a gwelwyd bod 8 gwasanaeth (53%) heb weld unrhyw newid tra bod 7 gwasanaeth (47%) wedi gweld lleihad.

Gofynnodd CRIDE a oedd gwasanaethau wedi cael anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar neu ddarparu athrawon llanw dros y 12 mis diwethaf. Cofnododd 1 gwasanaeth (8%) anawsterau wrth recriwtio i swydd barhaol tra cofnododd 5 (38%) dim anawsterau, gyda 7 gwasanaeth (54%) yn nodi bod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt. Cofnododd 6 gwasanaeth (40%) anawsterau wrth recriwtio athrawon llanw ac 1 (7%) yn cofnodi dim anawsterau, gydag 8 gwasanaeth (53%) yn nodi bod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt. Nodwyd themâu gan wasanaethau yn cynnwys:

- Anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar i ddysgu mewn darpariaethau adnoddau
- Prinder ymgeisydd cymwysedig yn gwneud cais am swyddi rhan-amser
- Anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar dros gyfnodau mamolaeth neu salwch tymor hir.

Gofynnodd CRIDE hefyd sawl Athro Plant Byddar oedd â chymhwyster arbenigol ychwanegol mewn cefnogaeth blynyddoedd cynnar. Yn gyffredinol roedd 3.0 Athro Plant Byddar gyda'r cymhwyster hwn, sy'n dod i 5% o'r cyfanswm o swyddi Athrawon Plant Byddar. Roedd y rhan fwyaf o Athrawon Plant Byddar â'r cymhwyster hwn (67%) yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau.

Gofynnwyd i wasanaethau hefyd sawl Athro Plant Byddar oedd yn meddu ar gymhwyster arbenigol ychwanegol fel awdiolegwr addysgol. Yn gyffredinol roedd 2.0 Athro Plant Byddar gyda'r cymhwyster hwn, sy'n dod i 3% o'r cyfanswm o swyddi Athrawon Plant Byddar. Mae'r ddau Athro Plant Byddar gyda'r cymhwyster hwn yn gweithio mewn swydd beripatetig.

Eleni, gofynnwyd i wasanaethau am nifer yr Athrawon Plant Byddar oedd yn gallu darparu cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y gofyn. Yn gyffredinol, cofnodwyd bod 15.7 Athro Plant Byddar yn gallu darparu cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y gofyn, sy'n dod i 25% o'r cyfanswm o swyddi Athrawon Plant Byddar.

Gofynnwyd i wasanaethau am gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yr Athrawon Plant Byddar.

*Tabl 16: Cymwysterau BSL Athrawon Plant Byddar*

| | Yn gweithio'n bennaf fel Athro Plant Byddar peripatetig | Yn gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau | Yn gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol | Yn gweithio'n hyblyg fel Athro Plant Byddar peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau ac/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol | Cyfanswm (Canran o'r holl Athrawon Plant Byddar) |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | 12.6 | 6.7 | 0 | 0 | 19.3 (32%) |
| Lefel 2 | 16 | 13.3 | 0 | 0 | 29.3 (48%) |
| Lefel 3 | 5.8 | 4 | 0 | 1 | 10.8 (18%) |
| Lefel 4 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 (2%) |
| Cyfanswm | 34.4 | 25 | 0 | 1 | 60.4 (99%) |

Gwelsom yn gynharach fod 60.73 athro yn gweithio fel Athrawon Plant Byddar. Os, fel awgryma'r tabl uchod, mae 60.4 athro yn meddu ar gymhwyster iaith arwyddion, dengys hyn bod 0.33 athro (llai nac 1%) heb unrhyw gymhwyster iaith arwyddion. Mae 19% yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 neu uwch, sy'n cyfateb i Lefel A mewn iaith dramor.

**Llwythi achos Athrawon Plant Byddar Peripatetig**

Edrycha'r adran hon ar lwythi achos damcaniaethol bob Athro Plant Byddar gwadd trwy edrych ar nifer y plant byddar nad ydynt mewn darpariaeth arbenigol yn barod (os ydynt yn derbyn cefnogaeth neu beidio) sy'n byw mewn ardal. Mae yna ystod o farnau ar fuddioldeb hyn a'r ffordd orau o gyfrifo'r gymhareb. Mae'r pwyntiau i'w hystyried yn cynnwys:

- Gall ardaloedd sy'n fawr a gwledig, gael mwy o Athrawon Plant Byddar wadd nag ardaloedd bach a threfol o reidrwydd oherwydd yr angen i ddarparu ar gyfer amser teithio.
- Gall ardaloedd sydd ag uned neu ysgol arbenigol gael llai o Athrawon Plant Byddar gwadd oherwydd amcangyfrifwyd bod y plant byddar sydd â'r angen mwyaf mewn darpariaeth arbenigol yn barod.
- Gall ymddangos bod gwasanaethau sydd mewn sefyllfa well i allu cofnodi a chydnabod yn ddibynadwy nifer y plant byddar sydd yn eu hardal, yn cynnwys y rheini dros 16 oed, â llwythi achos trymach na gwasanaethau sydd wedi darparu ffigur am nifer y plant byddar maent yn 'gwybod' amdanynt yn unig.
- Nid yw'r llwyth achos damcaniaethol yn dweud wrthym am y deilliannau a gyflawnwyd gan blant byddar yn yr ardal.

Yn nhermau syml ac er mwyn cysondeb ar draws pob rhan o'r DU, amcangyfrifa CRIDE y llwythi damcaniaethol trwy rannu nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw mewn unrhyw ardal benodol ac mewn darpariaeth anarbenigol[7] gyda'r nifer o Athrawon Plant Byddar gwadd cymwysedig neu sydd o dan

7 Mae hyn yn cynnwys plant byddar a gofnodwyd fel: eu bod yn cael eu cynorthwyo yn y cartref (e.e. sydd yn derbyn addysg yn y cartref neu cyn-ysgol), mewn lleoliad blynyddoedd cynnar, mewn ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth, mewn ysgolion prif ffrwd annibynnol, ysgolion arbenigol eraill (h.y. ar gyfer plant anabl yn fwy cyffredinol) neu mewn darpariaeth ôl-16. Nid yw'n cynnwys plant byddar a gofnodwyd i fod mewn ysgolion prif ffrwd sydd â darpariaeth adnoddau neu ysgolion arbennig ar gyfer plant byddar.

hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol.[8] Mi fydd hyn yn cynnwys rhai plant mewn rhai ardaloedd nad ydynt yn cael eu cefnogi yn weithredol gan y gwasanaeth. Ond bydd gwahardd y plant hyn yn amlwg yn creu ysgogiad i wella'r ffigurau trwy leihau cymorth. Hefyd, hyd yn oed pan fod gwasanaeth yn monitro plentyn byddar yn unig, mae hyn dal yn gofyn am amser ac adnoddau gan yr Athro Plant Byddar gwadd. Ni chynhwyswyd ymatebion lle bu bylchau yn naill ai nifer yr Athrawon Plant Byddar neu nifer y plant byddar sy'n byw yn yr ardal.

Dengys canlyniadau arolwg CRIDE fod pob Athro Plant Byddar gwadd (peripatetig) â llwyth achos damcaniaethol o 73 o blant byddar, ar gyfartaledd. Y llwyth achos uchaf oedd 126 mewn un ardal. Mae yna 7 gwasanaeth (47%) lle mae gan bob Athro Plant Byddar gwadd lwyth achos damcaniaethol o 80 o blant byddar neu mwy, ar gyfartaledd, ac o'r rhain 40 gwasanaeth (27%) lle mae 100 o blant byddar neu mwy ar y llwyth achos damcaniaethol, yn gyfartalog.

Mae'r llwyth achos damcaniaethol wedi tyfu ychydig ers 2015 pan oedd gan bob Athro Plant Byddar peripatetig lwyth achos damcaniaethol o 71 plentyn byddar.

**Staff arbenigol eraill**

Awgryma ymatebion yr arolwg fod yna 87.7 staff cymorth arbenigol arall heblaw am Athrawon Plant Byddar, yn cefnogi plant byddar yng Nghymru, a 14% o'r rhain yn gweithio yn y gwasanaeth peripatetig, ac 82% ohonynt yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau, a 3% yn gweithio'n hyblyg ar draws gwasanaethau peripatetig a darpariaethau adnoddau.

---

8 Ni chynhwysir unrhyw athrawon sydd yn gweithio fel Athrawon Plant Byddar ond sydd heb gymhwyster ac nad ydynt o dan hyfforddiant.

*Tabl 17: Nifer y staff cymorth arbenigol, yn ôl swydd*

| | **Peripatetig** | | **Darpariaethau adnoddau** | | **Yn gweithio'n hyblyg** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol** | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol** | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol** | **Cyfanswm** |
| Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb | 10 (79%) | 6 | 58.6 (81%) | 9 | 1 (34%) | 1 | 69.6 (79%) |
| Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Cyfathrebwyr ayb | 1 (8%) | 1 | 12.6 (17%) | 4 | 0 (0%) | 0 | 13.6 (16%) |
| Dehonglwyr BSL / Saesneg wedi'u cofrestru gyda NRCPD | 0 (0%) | 0 | 1 (1%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 1 (1%) |
| Hyfforddwyr byddar / Modelau Rôl byddar/ Hyfforddwyr iaith Arwyddion ayb | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Technegwyr ayb | 1.5 (12%) | 2 | 0 (0%) | 0 | 1.5 (52%) | 2 | 3 (3%) |
| Therapyddion lleferydd ac iaith | 0.1 (1%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 0.4 (14%) | 2 | 0.5 (0%) |
| Gweithwyr cefnogi teuluoedd / Swyddogion cyswllt | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Cyfanswm | 12.6 | | 72.2 | | 2.9 | | 87.7 |

Dylid nodi bod 'awdiolegwr addysgol' wedi'i dynnu o restr yr opsiynau i'r cwestiwn hwn yn arolwg eleni. Mae hyn oherwydd ein bod ni nawr yn gofyn a ydy Athrawon Plant Byddar yn meddu ar gymhwyster ychwanegol fel awdiolegwr addysgol ar wahân. Beth bynnag, ni chofnododd unrhyw wasanaeth eu bod nhw'n cyflogi awdiolegwyr addysgol yn 2016.

Canfu arolwg 2016 85.3 staff arbenigol arall. Felly cafwyd cynnydd o 2.4 swydd CALl ers hynny i 87.7. Mae hyn yn golygu cynnydd o 3%.

Gofynnwyd i wasanaethau hefyd am nifer y staff cymorth arbenigol arall oedd yn gallu darparu cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y gofyn. Roedd cyfanswm o 8.4 staff cymorth arbenigol, a 71% ohonynt yn gynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu, 24% ohonynt yn weithwyr cymorth cyfathrebu, ayb a 5% ohonynt yn therapyddion lleferydd ac iaith.

Gofynnwyd i wasanaethau wedyn am gymwysterau BSL staff cymorth arbenigol.

*Tabl 18: Cymwysterau BSL staff cymorth arbenigol*

| | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Lefel 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb | 20 | 26.5 | 6 | 1 | 0 | 2.5 | 56 |
| Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Cyfathrebwyr ayb | 0 | 6.6 | 5 | 0 | 0 | 0 | 11.6 |
| Dehonglwyr wedi'u cofrestru gyda NRCPD | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Hyfforddwyr byddar / Modelau rôl byddar/ Hyfforddwyr iaith arwyddion ayb | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Technegwyr ayb | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Therapyddion lleferydd ac iaith | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gweithwyr cefnogi teuluoedd / Swyddogion cyswllt | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall (nodwch deitl a CALl): | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Yn gynharach, gwelsom fod yna 87.7 o staff arbenigol arall. Mae'r tabl uchod yn dweud wrthym am gymwysterau iaith arwyddion 69.6 gweithiwr. Gan gymryd bod y 18.1 gweithiwr sy'n weddill heb unrhyw gymhwyster iaith arwyddion, mae hyn yn dangos bod:

- 80% o gynorthwywyr addysgu / cynorthwywyr cymorth dysgu ayb yn meddu ar gymhwyster iaith arwyddion, a 14% ohonynt yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 neu uwch
- 85% o weithwyr cymorth cyfathrebu / cyfathrebwyr ayb yn meddu ar gymhwyster iaith arwyddion, a 43% ohonynt yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 neu uwch. Gan fod swydd gweithwyr cymorth cyfathrebu yw helpu plant sy'n cyfathrebu trwy iaith arwyddion gael mynediad i'r cwricwlwm, mae'n peri pryder bod llai na hanner y gweithwyr cymorth cyfathrebu heb gymhwyster Lefel 3 neu uwch. Ystyrir cymhwyster Lefel 3 gan lawer, yn cynnwys Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, fel y cymhwyster angenrheidiol lleiaf.

# RHAN 3: Cefnogaeth a ddarperir

### Lleoliad gwasanaethau

Gofynnwyd i wasanaethau ble'r oeddent wedi'u lleoli.

*Tabl 19: Ble y lleolir gwasanaethau*

| | Nifer y gwasanaethau | Canran |
|---|---|---|
| Wedi'u lleoli yn yr awdurdod lleol | 13 | 87% |
| Wedi'u leoli mewn ysgol sydd â darpariaeth adnoddau | 0 | 0% |
| Wedi'u lleoli mewn ysgol arbennig ar gyfer plant byddar | 0 | 0% |
| Wedi'u darparu gan gorff neu fudiad arall | 0 | 0% |
| Arall | 2 | 13% |
| Cyfanswm | 15 | |

O'r ymatebion arall, dengys un bod y gwasanaeth wedi'i lleoli yn yr awdurdod lleol ac mewn darpariaeth adnoddau, tra dengys yr un arall fod y gwasanaeth wedi'i ddirprwyo i ysgolion ar hyn o bryd.

### Nifer y darpariaethau adnoddau

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer y darpariaethau adnoddau (naill ai mewn ysgolion prif ffrwd neu arbennig) yn eu hardal. Roedd 13 darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol gynradd. Roedd gan chwe gwasanaeth o leiaf un ddarpariaeth adnoddau oedran ysgol gynradd yn eu hardal. Roedd 12 darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd. Roedd gan bum gwasanaeth o leiaf un ddarpariaeth adnoddau oedran ysgol uwchradd yn eu hardal. Rhoddodd hyn gyfanswm o 25 darpariaeth adnoddau ledled Cymru.

### Meini prawf cymhwyster/fframweithiau

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd unrhyw newidiadau wedi bod i'u dyraniad cymorth rhwng blynyddoedd academaidd 2015/16 a 2016/17. Adroddodd pum gwasanaeth (36%) fod newidiadau wedi bod a 9 (64%) dim newidiadau. Ni atebodd un gwasanaeth y cwestiwn hwn.

Lle bo gwasanaethau wedi cofnodi bod newidiadau wedi bod, roedd y newidiadau a'u heffaith ar wasanaethau yn cynnwys:

- Prinder gweithwyr cymwysedig, yn golygu bod rhaid ailddyrannu cefnogaeth
- Swyddi Athro Plant Byddar parhaol yn cael eu newid i swyddi dros dro
- Athrawon Plant Byddar cymwysedig yn ymddeol ac Athrawon Plant Byddar dan hyfforddiant yn cymryd eu lle.

Gofynnodd CRIDE hefyd sut oedd gwasanaethau yn pennu’r lefel o gymorth. Mae pob un o'r 15 gwasanaeth yng Nghymru yn defnyddio fframwaith cymhwysedd (meini prawf cymhwysedd gynt) y Bartneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrau (NatSiP) i'w helpu i benderfynu ba lefel o gymorth mae plant byddar ei derbyn.

**Safonau ansawdd**

Gofynnwyd i wasanaethau nodi pa safonau ansawdd a ddefnyddir ganddynt er mwyn adolygu datblygiad y gwasanaeth. Roedd yn bosib i wasanaethau ddewis mwy nag un opsiwn.

*Tabl 20: Defnydd o safonau ansawdd er mwyn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir neu er mwyn datblygu'r gwasanaeth*

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran o wasanaethau** |
|---|---|---|
| NatSiP: Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Cefnogaeth Synhwyrol yn Lloegr (2016) | 11 | 73% |
| NAFWC 34/2005 - Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Addysgol i Blant a Phobl ifanc â Nam ar y Synhwyrau (Cymru) (2005) | 3 | 20% |
| Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (nawr Yr Adran Addysg) (Lloegr): Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Cymorth ac Allgymorth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) (2008) | 2 | 13% |
| Safonau Ansawdd Rhaglen Sgrinio Clyw Babanod | 8 | 53% |
| Pecyn Cefnogaeth Gwella Ansawdd NatSiP (2016) | 8 | 53% |
| Yr Adran Iechyd (Lloegr): Pobl Byddar-ddall: Canllawiau i awdurdodau lleol (2014) | 0 | 0% |
| Safonau eraill | 3 | 20% |

Roedd ymatebion eraill yn cynnwys:

- BATOD, NDCS a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw (Action on Hearing Loss bellach): Safonau ansawdd: Gwasanaethau cymorth a dysgu arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc byddar (2009), bellach wedi'i ddisodli gan safonau ansawdd NatSiP 2016.
- Llywodraeth Cymru: Arferion da ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig (2003)
- Meini prawf wedi'u datblygu gan yr awdurdod lleol
- Mesur diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Cyllido gwasanaethau**

Gofynnwyd i wasanaethau sut y cyllidir y gwasanaeth cymorth arbenigol peripatetig ar gyfer plant 5 i 16 oed. Darparodd 14 gwasanaeth ateb i'r cwestiwn hwn a ni atebodd un gwasanaeth y cwestiwn hwn.

*Tabl 21: Cyllido'r gwasanaeth peripatetig*

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran** |
|---|---|---|
| Wedi'i reoli'n ganolog gan yr Awdurdod Lleol (gan gynnwys arian a reolir gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer prynu gwasanaethau cymorth clyw gan Awdurdodau Lleol eraill, neu asiantaethau allanol e.e. SENSE) | 13 | 93% |
| Wedi'i ddirprwyo i ysgol arbennig neu ysgol prif ffrwd sydd â darpariaeth adnoddau sydd wedyn yn darparu allgymorth i ysgolion eraill | 0 | 0% |
| Wedi'i ddirprwyo **yn gyfan gwbl** i ysgolion unigol o fewn yr Awdurdod Lleol sy'n penderfynu a ydynt am brynu cymorth arbenigol o'r Awdurdod Lleol | 0 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| Wedi'i ddirprwyo**'n rhannol** i ysgolion unigol o fewn yr Awdurdod Lleol sy'n penderfynu a ydynt am brynu cymorth arbenigol o'r Awdurdod Lleol (e.e. "gwasanaethau a fasnachir" ar gyfer plant heb ddatganiad AAA) | 0 | 0% |
| Arall | 1 | 7% |

Nododd y gwasanaethau a ymatebodd arall fod y cyllid wedi'i ddiprwyo i ysgolion ond bod y gwasanaeth dal wedi'i gadw'n ganolog.

**Cynlluniau Datblygu Unigol**

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) anstatudol wedi'u dosbarthu i unrhyw blant byddar yn yr ardal. O dan Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, disgwylir i CDU gymryd lle datganiadau anghenion addysgol ychwanegol o fis Medi 2020. Rydym ar ddeall bod CDU yn cael eu treialu mewn rhai ardaloedd. Dwedodd un gwasanaeth (7%) eu bod wedi cael eu defnyddio gyda phlant byddar, 10 gwasanaeth (71%) eu bod nhw heb eu defnyddio a 3 gwasanaeth (21%) eu bod nhw'n ansicr os oedd CDU wedi'u dosbarthu i blant byddar yn yr ardal.

# RHAN 4: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiwm sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Ar adeg anfon yr arolwg allan, yr oedd cynrychiolwyr yn cynnwys: (BATOD), , , , (NDCS), (NatSiP), cyn-bennaeth , , y gwasanaeth addysg arbenigol i blant byddar yng Nghaint a Norfolk, fysgol Caeredin, a .

Dyluniwyd a chynlluniwyd yr arolwg gan aelodau CRIDE. Mae arolwg CRIDE yn defnyddio arolygon byrrach a llawn bob yn ail flwyddyn. Yn 2017, cyhoeddwyd arolwg llawn.

Dosbarthwyd yr arolwg i wasanaethau yng Nghymru ym mis Chwefror 2017 gan staff Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar ran CRIDE. Gofynnwyd i wasanaethau ymateb erbyn Ebrill 28 2017. Lle na fu ymateb erbyn y dyddiad hwn, cysylltwyd â gwasanaethau trwy e-bost a/neu ffôn. Yn dilyn hyn, yn gam olaf, anfonwyd Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ym mis Mehefin 2017 i'r gweddill nad oeddynt wedi ymateb.

Amlinellir y tabl isod cyfraddau ymateb yn ôl pob cyfnod.

*Tabl 32: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaeth*

| | **Nifer yr ymatebion** | **Cyfanswm cronnus** |
|---|---|---|
| Dyddiad cau cyntaf – Ebrill 28 2017 | 12 | 12 |
| Yr ail ddyddiad cau ar ôl cyswllt | 2 | 14 |
| Dychwelwyd yn dilyn ceisiad Rhyddid Gwybodaeth | 1 | 15 |

Roedd yn bosib i wasanaethau ymateb trwy gwblhau dogfen Word o'r arolwg. Ymgymerodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, a llunio'r adroddiad, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffai CRIDE ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg ac am eu sylwadau a'u hadborth gwerthfawr, a ddefnyddir i lywio cynllun arolygon yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisïau'r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â .

# Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol

Amlinellir y tabl hwn rhai data unigol gan wasanaethau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu'r ffigurau am nifer y plant ac Athrawon Plant Byddar o Ionawr 31 2017 ymlaen.

Noder fod 'Dim ateb' yn golygu na dderbyniwyd ymateb i'r cwestiwn perthnasol tra bod ‘amh’ yn awgrymu bod ymateb yn amherthnasol (gan amlaf yn y tabl isod mae hyn oherwydd nid oes darpariaethau adnoddau gan y gwasanaeth). Noder hefyd lle mae nifer y plant byddar mewn unrhyw gategori yn llai na 5, ymddengys ‘<5’.

Dylai cyfeiriadau at Athrawon Plant Byddar cynnwys y rheini sydd yn meddu ar y cymhwyster gorfodol neu sydd o dan hyfforddiant. Ni chynhwysir staff eraill sy'n gweithio fel Athro Plant Byddar ond heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant yn y tabl.

*Tabl 33: Data yn ôl awdurdod lleol*

| | **Nifer y plant â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae eich gwasanaeth yn gweithredu** | **Nifer y plant â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth** | **Nifer y plant byddar â byddardod dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth** | **Athrawon Plant Byddar sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol** | **Athrawon Plant Byddar sydd mewn darpariaeth adnoddau** | **Athrawon Plant Byddar yn bennaf mewn Ysgol neu goleg arbennig, nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol** | **Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio'n hyblyg** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd | 440 | 1185 | 658 | 5 | 5.5 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 275 | 133 | 97 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 229 | 666 | 478 | 6.4 | 5.7 | - | - |
| Sir Gaerfyrddin | 128 | 189 | 61 | 2 | 3 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 81 | 81 | 20 | 0.8 | | - | 1 |
| Conwy | 64 | 60 | 0 | 1.5 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam | 329 | 270 | 18 | 3 | 4.225 | 0 | 0 |
| Gwynedd ac Ynys Môn | 177 | 185 | 21 | 1.7 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 60 | 58 | 21 | 0.5 | 0.5 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 118 | 203 | 28 | 2 | 3 | 0 | 0 |
| Sir Benfro | 82 | 125 | 26 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 113 | 134 | 21 | 2.6 | 0 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 211 | 211 | - | 3.1 | 1 | 0 | 0 |
| Abertawe | 218 | 387 | 170 | 2 | 1.5 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 112 | 81 | 23 | 1 | 2 | - | - |